# Uned Wenyn Genedlaethol

# Adroddiad Blynyddol Cymru 2018

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

## Tymor 2018


Roeddwn i'n gwrando ar y rhaglen fwyd ar Radio 4 yn ddiweddar a oedd yn sôn am ba mor llwyddiannus roedd gwin o'r DU wedi bod eleni, diolch i dymor arbennig o gynnes a oedd wedi ymestyn i adeg y cynhaeaf ym mis Hydref, a'r ffaith nad oedd unrhyw rewogydd hwyr. Cyhoeddwyd mai dyma'r cynhaeaf gwin gorau y ganrif hon, roeddwn i'n meddwl y gallai gwenynwyr, yn yr un modd, fod wedi bod yn canmol rhinweddau tymor go arbennig! Bu'n flwyddyn wirioneddol eithriadol yng Nghymru, i'r fath raddau fel bod gwenynwyr profiadol, ac nid wyf yn ystyried fy mod yn un ohonynt eto, o'r farn ei fod wedi curo blynyddoedd eithriadol blaenorol e.e. 2006 a 2013 heb amheuaeth. Yn Sir Gaerfyrddin cafwyd cychod cynhyrchu â 3, 4 a 5 llofft fêl lawn a rhai â 5, 6 a 7 llofft fêl lawn yn Sir Benfro, rhywbeth nas gwelwyd ers amser maith, ac rwyf wedi clywed am brofiadau tebyg mewn siroedd eraill ymhellach i'r Dwyrain a'r Gogledd.

Ar ôl gwanwyn oer hir, a gyrhaeddodd ei isafbwynt gyda dyfodiad storm Emma ar 1 Mawrth, yr ychwanegwyd ati gan y 'Dihiryn o'r Dwyrain', gydag eira yn cael ei luwchio gan wynt rhewllyd o'r dwyrain, dyma ni'n symud yn gyflym o sefyllfa parhad y trechaf i fis Mai bendigedig, a welodd neithdar a phaill sycamorwydd yn cyrraedd y cychod ar lefelau nas gwelwyd erioed o'r blaen. Oherwydd y tywydd cynnes a sych, ar y cyfan, dros y mis nesaf roedd porthiant yn dod i mewn yn gyson, gan lenwi llofft fêl neu ddwy ar stociau cryf. Cafwyd bwlch ym mis Mehefin yn ystod hanner cyntaf y mis mewn rhai ardaloedd pan leihaodd y llif mêl ond ni chawsom ein siomi gan y planhigion cynhyrchu neithdar ar gyfer y prif lif, sef mieri, meillion ac, yn fuan wedyn, helyglys hardd, a gwnaethant ddechrau cynhyrchu neithdar yn gyflym ac yn gynnar diolch i heulwen gynnes barhaus ym mis Mehefin.

Gyda dyfodiad mis Gorffennaf roedd rhai gwenynwyr eisoes wedi cymryd cnwd er mwyn rhyddhau llofftydd mêl ac roedd eraill yn gofyn iddynt eu hunain a oedd ganddynt ddigon o flychau i gadw gam ar y blaen i'r llif mêl, a barhaodd i ddod. Fodd bynnag, lleihaodd yn sydyn yng nghanol mis Gorffennaf wrth i'r sychder ddechrau cael effaith wirioneddol ac, er iddi ailddechrau bwrw rhywfaint o law, ni welwyd llawer o fêl ers hynny. Cafodd y tymor ei gywasgu'n dri mis cynhyrchiol dros ben, gyda chynhyrchiant mêl a chwyr gwych yn ogystal â gwell cyplu gan freninesau nag a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r hydref sych, ar y cyfan, wedi bod yn garedig ar wahân i stormydd ym mis Mis a mis Hydref, a achosodd lifogydd mewn rhai ardaloedd. Mae'r rhai a gymerodd y rhan fwyaf o'r mêl yn ystod yr haf wedi gorfod bwydo'r gwenyn er mwyn sicrhau bod y cychod yn gryf yn mynd i mewn i'r gaeaf am nad oes digon o fêl wedi'i gynhyrchu yn lle'r hyn a gymerwyd.

***Y cnwd mêl:*** *Y cnwd mêl fesul cwch a gofnodwyd gan yr arolygwyr gwenyn tymhorol yng Nghymru o'u hardaloedd eu hunain yn 2018 oedd 56 pwys ar gyfartaledd, sef dwywaith y ffigur a gofnodwyd y llynedd.*



*Paill y gwanwyn mewn ffrâm fag*

## Yr UWG yng Nghymru – Y tîm

Eleni, o ddechrau mis Gorffennaf, gwnaethom groesawu Shane Jones fel Arolygydd Gwenyn Tymhorol Powys. Mae gan Shane, o Lanfair ym Muallt, wybodaeth a phrofiad helaeth ym maes gwenyna ac mae'n ychwanegiad gwerthfawr at y tîm. Mae'n siarad Cymraeg fel mamiaith a bydd yn adnabyddus i lawer ohonoch o ddigwyddiadau ledled y wlad.

O 1 Ebrill 2019 gallwch ddefnyddio'r cyfleuster chwilio cod post ar dudalen cysylltiadau BeeBase i weld pwy yw eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol, ond dros gyfnod y gaeaf dylech gyfeirio pob ymholiad ataf. Gellir cysylltu ag Arolygwyr Gwenyn Tymhorol ar y rhifau ffôn isod o ddechrau mis Ebrill tan ddiwedd mis Medi tra bod modd cysylltu â'r Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn. Noder bod fy nghyfeiriad e-bost wedi newid i francis.gellatly@apha.gov.uk, o fis Mawrth 2019 ni dderbynnir unrhyw negeseuon e-bost a anfonir ar y fersiwn 'gsi'.

| **Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol** | **Ardal** | **Manylion cyswllt** |
|---|---|---|
| Frank Gellatly | Canol Sir Gaerfyrddin 01267 202732 | 07775 119480 |
| **Arolygwyr Gwenyn Tymhorol** | **Ardal** | **Manylion cyswllt** |
| Jonathan Garratt | Ynys Môn, Gogledd Gwynedd a Chonwy | 07775 119479 |

| | | |
|---|---|---|
| Tony Davis | Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam | 07900 166018 |
| Paul Aslin | De Gwynedd, Gogledd Powys, | 07867 351605 |
| Karen Smith | Ceredigion | 07979 119374 |
| Shane Jones | Powys | 07827 552312 |
| Chris Welton | Gogledd Sir Benfro, De-orllewin Ceredigion | 07900 166143 |
| Maggie Gill | De Sir Benfro, De Sir Gaerfyrddin | 07979 119373 |
| Ade Bowen | Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful | 07775 119489 |
| Edmund Thomas | Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr | 07901 517813 |
| Adam Parker | Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent | 07990 138902 |

**Nifer y gwenynwyr**

Ar hyn o bryd mae 3,444 o wenwynwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru ar Beebase, sef cronfa ddata ar-lein yr UWG. Rhyngddynt, mae ganddynt 19,356 o nythfeydd mewn 4,769 o wenynfeydd – sef cyfartaledd o 5.6 gwenynfa fesul gwenynwr a 4 nythfa fesul gwenynfa. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y gwenynwyr newydd sy'n cofrestru ar Beebase yng Nghymru wedi amrywio – yn 2014 cofrestrwyd 331 o wenynwyr newydd, gyda'r nifer hon yn cynyddu i 347 yn 2015 ac yn gostwng i 246 yn 2016, 205 yn 2017 a 216 yn 2018.

Os ydych yn cadw gwenyn gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch cofrestru ar Beebase – mae am ddim. Os yw eich gwenyn wedi cael eu harchwilio gan yr UWG, cewch eich cofrestru ond nid yw'n ganlyniad awtomatig i ymuno â chymdeithas wenwyna leol. Bydd cofrestru yn dod â manteision sylweddol, gan gynnwys: rhybuddion awtomatig os canfyddir clefyd y gwenyn ('foulbrood') neu blâu egsotig yng nghyffiniau eich gwenynfa; negeseuon e-bost â chyngor amserol ar sail canfyddiadau'r arolygiaeth yn ystod y tymor e.e. i fwydo'r gwenyn os ydych yn canfod nythfeydd sy'n llwgu yng nghanol y tymor; a chyfleuster i gynnal eich cofnodion gwenyna eich hun yn ogystal â chofnodion o'ch gwenynfa. At hynny, gallwn ymweld â chi ac archwilio eich gwenyn a rhoi cyngor yn bersonol os canfyddir clefyd y gwenyn neu blâu egsotig gerllaw.

Mae cofrestru'n wirfoddol yn bwysig iawn a gallwch wneud hynny ar-lein yn www.nationalbeeunit.com neu drwy ffonio ein swyddfa ar 0300 303 0094. Ar ôl i chi gofrestru dylech ddiweddaru cofnodion Beebase yn rheolaidd. Er mwyn gwneud hyn bydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair arnoch a gallwch gael y rhain wrth gofrestru neu drwy ffonio'r swyddfa.

Mae'r graffiau a'r ffigurau yn yr adroddiad hwn ar gael ar dudalennau cyhoeddus Beebase, gwefan yr UWG (www.nationalbeeunit.com) yn 'Bee Pests, Diseases and Maps'. Mae'r wefan hefyd yn cynnig sawl tudalen o awgrymiadau, cyngor a thaflenni y gellir eu lawrlwytho ar reoli clefydau a magu gwenyn.

### Archwiliadau

Eleni, ymwelodd Arolygwyr Gwenyn Tymhorol Cymru â chyfanswm o 697 o wenwynwyr mewn 1109 o wenynfeydd ac archwilio 5003 o nythfeydd. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 5% yn nifer y gwenynwyr a'r nythfeydd ond mae nifer y gwenynfeydd yn debyg i'r ffigur a gofnodwyd yn 2017. Hefyd, cynhaliwyd 12 o arolygiadau mewnforio gan wneud gwaith dilynol mewn perthynas â breninesau a oedd wedi cael eu mewnforio o wledydd eraill yn yr UE. Un rheswm dros y gostyngiad bach yw'r penderfyniad i rewi'r broses recriwtio yn Lloegr. Roedd hyn wedi peri oedi i'r broses honno ac, felly, ni chwblhaodd ein haelod newydd o staff hyfforddiant maes tan fis Awst eleni. Rheswm arall oedd bod y gwaith a wnaethom ar Gacwn Asia gan helpu ein cydweithwyr yn Lloegr wedi dechrau'n gynnar – gweler yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.


## Clefydau a Phlâu

### Clefydau hysbysadwy: Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn a Chlefyd Americanaidd y Gwenyn


Y tymor hwn, canfuwyd clefyd y gwenyn mewn 11 o wenynfeydd a oedd yn effeithio ar 14 o nythfeydd, sy'n ostyngiad o gymharu â lefelau 2017 pan ganfuwyd 65 o nythfeydd wedi'u heintio â'r clefyd mewn 34 o wenynfeydd. Mae'n cyfateb i ostyngiad o 68% yn nifer y gwenynfeydd wedi'u heintio a gostyngiad o 78% yn nifer y nythfeydd wedi'u heintio.

Mae'r gostyngiad yn nifer yr achosion o'r clefyd i'w briodoli'n bennaf i'r gwaith a wnaed ers 2015 i ddileu'r clefyd yng Nghanolbarth Cymru lle roedd nifer fawr o achosion wedi'u canfod, heb unrhyw achosion newydd yn cael eu cofnodi yn yr ardal eleni. Bydd y tymor eithriadol o dda wedi chwarae rhan yn hyn o beth hefyd. Dylai gwenynwyr barhau i fod ar eu gwyliadwriaeth ond gallant gymryd rhywfaint o gysur o'r ffaith ei bod yn annhebygol iawn y bydd clefyd y gwenyn yn effeithio ar eu gwenyn: canfuwyd bod gan 0.7% (5) o'r gwenynwyr a arolygwyd Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn a bod gan 0.3% (2) Glefyd Americanaidd y Gwenyn.

**Nifer yr Achosion o Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn yng Nghymru 2014 – 2018**
(fesul sir a gadwyd)




**Nifer yr Achosion o Glefyd Americanaidd y Gwenyn yng Nghymru 2014 - 2018**
(fesul sir a gadwyd)




Ceir manylion pellach am achosion o glefyd y gwenyn a gofnodwyd ynghyd â mapiau ar y tudalennau ar BeeBase sy'n ymdrin â chlefydau gwenyn yn

www.nationalbeeunit.com. Argymhellir y dylech edrych ar y rhain yn rheolaidd i weld a oes unrhyw achosion o glefyd y gwenyn wedi'u canfod gerllaw.

**Varroa**

Unwaith eto eleni ychwanegwyd at y triniaethau sydd ar gael yn y DU ar gyfer Varroa. Mae'r rhestr o'r rhai sydd wedi cael eu cofrestru a'u cymeradwyo i'w defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ar gael ar ei gwefan http://www.vmd.defra.gov.uk/ProductInformationDatabase/Default.aspx ynghyd â'r Crynodeb o Nodweddion Cynnyrch sy'n rhoi manylion llawn am sut i'w defnyddio. Er mwyn gweld y rhestr lawn dewiswch 'Bees' ar y gwymplen o rywogaethau yn y ddolen chwilio am gynnyrch.

Powdr a Thoddiant Oxybee gan DANY Bienenwohl yw'r ychwanegiad mwyaf diweddar i ddod ar gael yn y DU (y cynhwysyn gweithredol yw deuhydrad asid ocslaig) sy'n driniaeth seiliedig ar asid ocsalig a roddir drwy ddefnyddio'r dull 'diferu'. Yn ogystal â'r triniaethau thymol profedig ar gyfer Varroa megis Apiguard, Api-life a Thymovar, mae triniaeth asid ocsalig yn boblogaidd, nid yn unig drwy ddefnyddio'r dull diferu, ond yn fwyfwy drwy ddefnyddio'r dull anweddu. Mae llawer o gymdeithasau wedi buddsoddi mewn taenwyr a chyfarpar diogelu personol cysylltiedig er mwyn galluogi eu haelodau i ddefnyddio dull sychdarthu asid ocsalig am gost fach iawn am y driniaeth effeithiol hon.

Er mwyn sicrhau nythfeydd cryf ac egnïol, cyngor yr UWG yw y dylid monitro a rheoli Varroa yn briodol drwy ddefnyddio dulliau biotechnegol a chynhyrchion wedi'u hawdurdodi yn unol â'r cyfarwyddiadau. Dylid targedu triniaethau ar gyfer Varroa cyn i nythfeydd ddechrau cynhyrchu eu gwenyn 'gaeaf' ond bydd monitro lefelau Varroa yn ystod y tymor yn helpu i nodi p'un a oes angen trin y gwenyn ynghynt. Bydd niwed feirysol, sy'n gysylltiedig â Varroa am eu bod yn gludwyr feirysau da, yn byrhau oes y gwenyn llawndwf gryn dipyn ac, felly, yn effeithio ar allu chwilota nythfeydd sydd wedi'u heintio â lefelau uchel iawn o Varroa yn ystod yr haf. Mae marwolaeth nythfa ar ddiwedd y gaeaf neu ar ddechrau'r haf yn aml i'w phriodoli i'r ffaith bod triniaeth wedi'i rhoi yn rhy hwyr yn y tymor, sy'n golygu bod feirysau yn effeithio ar y gwenyn gaeaf neu eu bod yn cael eu gwanhau gan y gwyddon sy'n bwydo arnynt.

**Cadw golwg ar blâu egsotig**

Cynhaliwyd 441 o archwiliadau a oedd yn ymwneud yn benodol â phlâu egsotig eleni, er mwyn targedu cyfuniad o bwyntiau risg a nodwyd a safleoedd a ddewiswyd ar hap. Mae archwiliadau cadw golwg ar blâu egsotig yn edrych i weld a oes unrhyw Chwilod Bach y Cwch Gwenyn, gwyddon Tropilaelaps a Chacwn Asia yn bresennol yn ogystal â bod yn archwiliad arferol o epil er mwyn chwilio am glefyd y gwenyn. Y pwyntiau risg a nodwyd yw porthladdoedd, meysydd awyr, mewnforwyr cynhyrchion cychod crai, marchnadoedd cyfanwerthu ffrwythau a llysiau, mewnforwyr breninesau mwy o faint a safleoedd tirlenwi sy'n gysylltiedig â chynhyrchion wedi'u mewnforio. Gan fod Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yn dal i fod yn bresennol yn yr Eidal eleni a bod Cacwn Asia wedi ymledu i'r DU o'r ochr draw i'r Sianel yn Ffrainc, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwaith i gadw golwg ar blâu egsotig.

Mae gennym 15 o Wenynfeydd Sentinel yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i fynd i'r afael â phlâu sy'n cyrraedd y DU o wledydd tramor. Sefydlir gwenynfeydd Sentinel mewn ardaloedd sydd 'mewn perygl' lle mae gwenynwr gwirfoddol yn cytuno i fonitro ei nythfeydd yn benodol i weld a oes unrhyw blâu egsotig yn bresennol. Yn ogystal ag archwiliad gweledol, caiff malurion llawr o'r cychod gwenyn dynodedig eu samplu ddwywaith y flwyddyn a'u profi ar gyfer Chwilod Bach y Cwch Gwenyn a Tropilaelaps. Rhoddir yr holl gyfarpar a gwaith papur i'r gwenynwr sy'n casglu samplau yn unol â chyfarwyddyd ac yn eu hanfon i labordy'r UWG er mwyn iddynt gael eu sgrinio. Caiff trapiau Chwilod Bach y Cwch Gwenyn a Chacwn Asia eu darparu a'u harchwilio yn ystod archwiliadau arferol o nythfeydd a'u nodi ar daflen gofnodi. Diolch i'r gwenynwyr hynny sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd, ond hefyd, cysylltwch â ni os hoffech gymryd rhan yn y dyfodol.

**Cacynen Asia (y 'gacynen goesfelyn')**

Cadarnhawyd naw achos o weld Cacwn Asia yn Lloegr yn 2018, gan ddechrau gyda chacynen unigol a ganfuwyd gan ddeiliad tŷ mewn blodfresychen yn ei gegin yn Bury, Swydd Gaerhirfryn, a gadarnhawyd ar 13 Ebrill. Cafodd y flodfresychen ei thyfu yn Swydd Lincoln ond credir iddi gael ei storio, o bosibl, gyda llysiau o Ffrainc.

Ar ôl haf tawel, canfu gwenynwr yn Fowey ar arfordir Cernyw Gacynen Asia wedi marw mewn trap yn y wenynfa yn ei ardd. Cysylltodd â'i Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol a chadarnhawyd mai Cacynen Asia ydoedd ar 3 Medi pan oedd tîm arolygu De-orllewin Lloegr eisoes wedi'i gynnull. Yn dilyn gweithrediad cadw gwyliadwriaeth gan yr UWG, canfuwyd nyth mewn mieri trwchus o fewn cilometr i'r man lle y canfuwyd y gacynen Asia gyntaf ac fe'i dinistriwyd ar 6 Medi.

Gerllaw yn Liskeard, Cernyw rhoddodd gwenynwr wybod am un gacynen wryw a oedd wedi'i dal mewn trap, cadarnhawyd mai dyna beth ydoedd ar 7 Medi 2018 ond ar ôl cadw gwyliadwriaeth am gyfnod hir ni welwyd unrhyw gacwn eraill yn yr ardal. Canfuwyd un gacynen wedi marw yn Hull, Swydd Efrog, cadarnhawyd mai dyna beth ydoedd ar 9 Medi, ond ar ôl chwilio'r ardal yn fanwl, tybiwyd mai un trychfilyn ydoedd y daethpwyd ag ef i'r wlad hon o Ffrainc drwy amryfusedd.

Yn y cyfamser yn ôl yn Fowey, Cernyw, roedd popeth yn dawel yn dilyn dinistrio'r nyth ar 6 Medi nes i rai cacwn eraill gael eu dal mewn trapiau yn yr un ardal dros wythnos yn ddiweddarach, a gododd amheuon bod y rhain yn fwy nag ambell gacynen a oedd wedi cael ei gadael ar ôl o'r nyth gyntaf. O fewn deuddydd canfuwyd ail nyth mewn coetir ger y gyntaf ac fe'i dinistriwyd hefyd ar 20 Medi 2018. Dylid pwysleisio, er ei bod yn agos at y nyth gyntaf, fod y tir yn golygu ei bod yn anodd iawn cadw gwyliadwriaeth ac mai dim ond yn y goeden o un wylfan ar y gwaelod y gellid gweld yr ail nyth. Dengys gwaith dadansoddi bod y ddwy nyth yn Fowey yn nythfeydd sylfaenol ac eilaidd o'r un frenhines ac, felly, mai'r un nythfa oeddent.

Yn ddiweddarach yn y mis yn New Alresford, Hampshire, rhoddodd deiliad tŷ wybod ei fod wedi gweld Cacwn Asia yn chwilio am fwyd yn ei ardd. Galwyd ar yr Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol a chadarnhaodd mai Cacwn Asia oeddent. Drwy wylio'n ofalus roedd yn gallu nodi rhai llinellau gwelediad a chanfu'r nyth o fewn

ychydig oriau ar ôl cyrraedd y lle. Roedd yn isel mewn llwyn ger tŷ heb fod ymhell i ffwrdd a dinistriwyd y nyth ar 24 Medi 2018.

Yn fuan ar ôl y darganfyddiad hwn, ar yr arfordir islaw Beaulieu sydd hefyd yn Hampshire, sylwodd deiliad tŷ ar gacwn yn bwyta afalau a oedd wedi cwympo yn ei gardd a dywedodd wrth ffrind iddi a oedd yn wenynwr a roddodd wybod i'r awdurdodau amdanynt. Unwaith eto o fewn ychydig ddiwrnodau, ar 26 Medi 2018, canfuwyd a dinistriwyd nyth mewn coetir hanner cilometr i ffwrdd.

Yn Guildford, Surrey canfuwyd cacynen farw arall mewn Mini newydd ar safle delwriaeth geir, ond nid oedd tarddiad y trychfilyn yn hysbys.

Yn olaf, yn Dungeness, Swydd Gaint canfuwyd dwy Gacynen Asia, y ddwy ohonynt yn chwilio am fwyd ar iorwg, y naill mewn gardd a'r llall ar warchodfa'r RSPB gerllaw. Ar ôl sawl diwrnod o wylio'n ofalus ni welwyd unrhyw gacwn eraill a chafodd y gweithrediad ei ddirwyn i ben, gyda dim ond ychydig o drapiau yn cael eu cadw yn yr ardal. Y gred yw y gallai'r cacwn unigol hyn fod wedi cael eu chwythu i'r DU o Ffrainc. Cadarnhawyd bod y ddwy ohonynt yn gacwn gwryw.

Mae'r broses o ganfod nythod Cacwn Asia, ar ôl cadarnhau mai dyna beth ydynt, yn cydymffurfio â Gweithdrefn Safonol lle y sefydlir Canolfan Flaenweithredu mewn lleoliad addas yn yr ardal e.e. swyddfeydd APHA neu orsaf dân. Caiff y gweithrediad ei fonitro'n ofalus yn unol â pholisi'r UWG a Defra gydag adroddiadau dyddiol yn cyrraedd swyddfa'r Cabinet a'r Arglwydd Gardiner. Caiff arolygwyr gwenyn eu lleoli gyda thrapiau a gorsafoedd abwyd o amgylch yr ardal er mwyn nodi llinellau gwelediad y cacwn sy'n dychwelyd i'w nyth ar ôl bod yn chwilio am fwyd. Mae hyn yn gofyn am gadw gwyliadwriaeth ofalus, llawer o amynedd a sgiliau olrhain da, ond caiff ei wobrwyo pan ellir eu plotio ar fap gyda'r llinellau yn cydgyfarfod yn lleoliad y nyth. Hyd yn oed pan fo lleoliad y nyth wedi'i gyfyngu'n sylweddol i ardal benodol os yw'r ardal honno yn goediog iawn gall fod yn anodd iawn ei lleoli mewn canopi coed trwchus o hyd. Eleni rydym wedi treialu ffotograffiaeth is-goch, dronau a thechnoleg olrhain â radio er mwyn gwella ein gallu ond uwchlaw popeth arall llinellau gwelediad dynol a fu'n sail i'n llwyddiant i ganfod nythod.

Anfonwyd nythod a ddinistriwyd eleni i FERA i'w dadansoddi, a chyhoeddir canlyniadau'r gwaith hwn maes o law. Fe'n hatgoffir unwaith eto y gallai Cacwn Asia (neu blâu egsotig eraill) gyrraedd unrhyw le bron yn y DU oherwydd y lefelau uchel iawn o draffig a nwyddau sy'n cyrraedd y DU o'r ochr eraill i'r Sianel a gwledydd eraill lle mae plâu egsotig yn endemig. Cadarnhawyd achosion eraill o weld Cacwn Asia eleni yn Ynysoedd y Sianel, yn Jersey erbyn 4 Hydref, roedd 52 o nythod ar gamau datblygu gwahanol wedi cael eu canfod a'u dinistrio yn ystod y tymor.

Ers i'r nythod yng Nghernyw a Hampshire gael eu dinistrio a'u gwaredu, nid oes unrhyw Gacwn Asia eraill wedi cael eu gweld yn chwilio am fwyd yn yr ardaloedd na'u dal mewn trapiau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai Cacwn Asia ailymddangos yn y DU y gwanwyn nesaf ac anogir gwenynwyr, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd, i roi gwybod os ydynt yn gweld unrhyw gacwn a amheuir drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:-



*Cacynen Asia Fowey*

- Mae'r ap 'Asian Hornet Watch' ar gael i'w lawrlwytho am ddim o storfeydd apiau Apple ac Android
- Gall aelodau o'r cyhoedd hefyd roi gwybod am Gacwn Asia y maent wedi'u gweld drwy anfon neges e-bost i alertnonnative@ceh.ac.uk. Anfonwch ffotograff, nodwch lle y daethoch o hyd iddi a rhowch rif ffôn fel y gellir cysylltu â chi.
- Gellir anfon adroddiadau drwy ddefnyddio'r ffurflen gyflwyno ar-lein ar wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron, unwaith eto gyda ffotograff.
- Ceir manylion am olwg cacynen Asia ar ganllaw BeeBase neu ar daflen adnabod cacwn Asian NNSS.

D.S. Mae trychfilyn marw yn llawer gwell na ffotograff a gollwyd, felly daliwch y gacynen os oes modd a'i rhewi neu ei tharo i lawr ag unrhyw beth wrth law! Cofiwch mai ein hamddiffyniad gorau yn erbyn cacynen Asia yw canfod yn gynnar y rhai sy'n cyrraedd a'u hatal rhag ymsefydlu a thrapiau monitro yw'r ffordd orau o gynorthwyo dulliau canfod. Gellir gwneud y trapiau gartref a cheir dolenni i daflen (a fideo ar YouTube) sy'n disgrifio sut i wneud un ar BeeBase, ewch i http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=208. Dylid monitro trapiau mewn ardaloedd i ffwrdd oddi wrth achos a gadarnhawyd, oherwydd, drwy eu harchwilio'n rheolaidd, bydd modd rhyddhau trychfilod buddiol eraill heb eu niweidio.

Mae'r oriel luniau ar BeeBase http://www.nationalbeeunit.com/gallery/index.cfm yn cynnwys sawl llun o'r math penodol o gacynen Asia rydym yn pryderu yn ei chylch a Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn ogystal â phlâu a phathogenau eraill a phynciau cyffredinol sy'n ymwneud â gwenyna. Mae pob llun yn ddarostyngedig i (h) hawlfraint y Goron ond gellir eu defnyddio am ddim mewn unrhyw fformat ar gyfer ymchwil anfasnachol neu astudiaethau preifat neu i'w dosbarthu'n fewnol yn eich sefydliad. Wrth atgynhyrchu lluniau, dylech gysylltu'r ymadrodd "Drwy garedigrwydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Hawlfraint y Goron" wrth ochr pob llun.

**Chwilen Fach y Cwch Gwenyn**





*Aethina Tumida Cyfnodau oedolyn a larfa*

Cadw golwg ar Aethina tumida yn yr Eidal yn 2018

Ar 26· Hydref 2018, nodwyd pedwar achos o bla Aethina tumida eleni yn rhanbarth Reggio Calabria yn Ne'r Eidal, sef y rhanbarth lle y'i canfuwyd yn wreiddiol yn 2014. Cadarnhawyd bod chwilod bach y cwch gwenyn i'w cael mewn tair gwenynfa sentinel (croesau porffor ar y mapiau isod), yr oedd dwy ohonynt wedi'u lleoli yn y parth diogelwch o 30 km. Cadarnhawyd yr achos cyntaf ar 1 Awst ym mwrdeistref Palmi lle y canfuwyd oedolion a larfa. Cadarnhawyd bod y chwilod i'w cael yn yr ail wenynfa ar 7 Awst ym mwrdeistref Brancaleone a leolir tua 15 km i ffwrdd oddi wrth y parth diogelwch ar arfordir de-ddwyreiniol rhanbarth Reggio Calabria. Canfuwyd chwilod bach y cwch gwenyn llawndwf. Cadarnhawyd bod y chwilod i'w cael yn y wenynfa olaf yn Rosarno ar 4 Medi. Roedd y wenynfa sentinel hon yn llawn oedolion a larfau. Roedd wedi'i lleoli tua 12 km i ffwrdd oddi wrth yr achos a gadarnhawyd yn Laureana Di Borello – gweler y paragraff nesaf.


Cadarnhawyd achos newydd, nad oedd mewn gwenynfa sentinel, ar 2 Awst ym mwrdeistref Laureana Di Borello (croesau coch ar y mapiau) yn y parth diogelwch o 30 km. Roedd chwilod bach y cwch gwenyn mewn haid a oedd yn llawn oedolion a larfau. Mae'n rhaid nodi nad oes adroddiad wedi'i gyflwyno eto ar bob un o'r archwiliadau y bwriedir iddynt gael eu cynnal yng ngweddill rhanbarth Calabria ac ar Sisili pan gyhoeddwyd y newyddion hyn.

Nid yw statws 'rhydd' Sisili wedi newid ac nid oes unrhyw achosion newydd wedi'u canfod ar yr ynys ers 2014. Ni chanfuwyd unrhyw achosion newydd yn rhanbarth Cosenza, a leolir i'r Gogledd o Galabria ers mis Medi 2016. Dengys y ffaith bod achosion wedi ailymddangos yn rheolaidd yn y parthau lle roedd y pla wedi'i nodi am y tro cyntaf ers 2014 fod chwilod bach y cwch gwenyn i'w cael o hyd yn y parthau hyn.

Mae'r cynllun gwyliadwriaeth a roddwyd ar waith yn 2018 yn dilyn y cynllun monitro a roddwyd ar waith yn y blynyddoedd blaenorol. Mae gweithgarwch cadw gwyliadwriaeth yn dal i fynd rhagddo mewn ardaloedd sy'n rhydd o chwilod bach y cwch gwenyn megis

Sisili a gweddill yr Eidal er mwyn gwarantu statws rhydd yr ardaloedd hyn. Gwnaed newidiadau i'r cynllun monitro, gan gynnwys yn arbennig lleihau nifer y gwenynfeydd a oedd i'w harchwilio yn y parth diogelwch (a oedd yn cyfateb i fynychder disgwyliedig o 10% gyda chyfwng hyder o 95% yn lle'r mynychder disgwyliedig o 5% a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd blaenorol). Mae'r lleihad hwn, ynghyd â'r penderfyniad i sefydlu gwenynfeydd sentinel mewn lleoliadau strategol (h.y. ar yr arfordir o flaen Sisili, ar hyd yr Arfordir Ïonaidd, ar hyd y ffiniau â Vibo Valentia a Catanzaro, yn Vibo Valentia) yn awgrymu bod y nodau o reoli lledaeniad chwilod bach y cwch gwenyn a chyfyngu'r pla i'r parth diogelwch yn cael eu cyflawni'n raddol.

Noder: dileodd penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/370 dyddiedig 1 Mawrth 2017 Sisili o'r rhestr o ardaloedd sy'n destun mesurau amddiffyn mewn perthynas â chwilod bach y cwch gwenyn yn yr Eidal ac ymestynnodd y cyfnod ar gyfer cymhwyso mesurau amddiffyn penodol tan 31 Mawrth 2019.




| Regione | Provincia | N. Apiari Positivi | N. Apiari Negativi | Data ultimo controllo | N. Nuclei Sentinella Positivi |
|---|---|---|---|---|---|
| Calabria | CATANZARO | | 68 | 23/07/2018 | |
| | COSENZA | | 71 | 14/04/2018 | |
| | CROTONE | | 0 | 29/11/2017 | |
| | REGGIO DI CALABRIA | 1 | 3 | 14/03/2018 | 3 |
| | VIBO VALENTIA | | 0 | 02/11/2017 | |
| Sicilia | AGRIGENTO | | 0 | 27/04/2017 | |
| | CALTANISSETTA | | 0 | 27/04/2017 | |
| | CATANIA | | 22 | 26/04/2018 | |
| | ENNA | | 0 | 04/05/2017 | |
| | MESSINA | | 0 | 10/04/2018 | |
| | PALERMO | | 0 | 14/04/2017 | |
| | RAGUSA | | 0 | 28/04/2017 | |
| | SIRACUSA | | 0 | 04/05/2017 | |
| | TRAPANI | | 0 | 11/04/2017 | |

**Mewnforion 2018**

Dim ond os oes ganddynt dystysgrif iechyd Swyddogol gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) neu Drydedd Wlad a roddwyd gan yr awdurdod cymwys yn nharddle'r gwenyn y gellir mewnforio neu allforio gwenyn, (gan gynnwys breninesau, pecynnau a nythfeydd). Mae'n ofyniad **cyfreithiol** eich bod yn hysbysu'r **Uned Wenyn Genedlaethol** am wenyn sy'n cael eu mewnforio o'r tu allan i'r DU. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau'r Ffurflen Hysbysu Mewnforiwr a'i phostio, ei ffacsio neu ei he-bostio i swyddfa'r UWG. Fel arall, os ydych yn hunangofrestredig, gallwch

fewngofnodi i'r tudalennau i Wenynwyr ar Beebase a chlicio ar y ddolen 'Import Notifications' o'r mynegai ar y llaw chwith. Wrth gwrs, mae'n anghyfreithlon mewnforio gwenyn, breninesau neu unrhyw gynhyrchion sy'n gysylltiedig â gwenyn o'r tu mewn i barth diogelwch chwilod bach y cwch gwenyn o amgylchedd yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn ne'r Eidal. Gellir manylion ar y tudalennau Mewnforion/Allforion ar Beebase yn http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=47

**Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio**



*Saerwenynen Goch - Osmia bicornis*

Yn 2018, diweddarwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio gan aelodau o'r Tasglu Pryfed Peillio, a nod cyffredin y Cynllun Gweithredu o hyd yw arafu a gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y pryfed peillio. Fodd bynnag, roedd angen cynnal adolygiad i ddiweddaru'r camau gweithredu er mwyn adlewyrchu menter 'Bee Friendly', sef Cynllun Monitro Pryfed Peillio Cenedlaethol y DU, polisi Iechyd Gwenyn sy'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag achos o Gacwn Asia, gwaith parhaus a newydd aelodau Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio a'r gofynion newydd sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae gwaith yr Uned Wenyn Genedlaethol yn cyfrannu at y cynllun drwy helpu i gynnal poblogaeth iach o wenyn a reolir yng Nghymru, tra bod cyfranwyr eraill yn gweithio i gynyddu cynefinoedd a bioamrywiaeth ar gyfer pryfed peillio gwyllt.

**Hyfforddiant i Wenynwyr**

Cynhaliwyd pum digwyddiad Iechyd Gwenyn ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Cynhaliwyd a hysbysebwyd tri gan gymdeithasau gwenynwyr lleol a dau gan Gymdeithas Gwenynwyr Cymru yn ei Chynhadledd i ddathlu 75 mlynedd ers ei sefydlu. Roeddent yn agored i aelodau ac unigolion nad oeddent yn aelodau fel ei gilydd, ac roedd amrywiaeth eang o wenynwyr yn bresennol ynddynt. Roedd y digwyddiadau yn gymorthfeydd 'galw heibio', a oedd yn galluogi pobl i fynd a dod fel y mynnent a chanolbwyntio ar y materion a oedd o'r pryder mwyaf iddynt. Daethom â chrwybrau heintiedig a ddewiswyd gyda ni, a oedd yn cael eu harddangos o dan drwydded arbennig, er mwyn rhoi profiad ymarferol, a'r unig brofiad gobeithio, i'r sawl a oedd yn bresennol, o glefyd y gwenyn.



Gwnaethom ddarparu stondinau gwybodaeth a oedd yn ymdrin ag ystod o blâu a chlefydau ac arfer da a pherthnasol o ran cadw gwenyn, o reoli Varroa i fioddiogelwch a phlâu egsotig. Mae elfennau ymarferol a gweledol y digwyddiadau, yn enwedig y cyfle i weld a thrafod crwybr wedi'i heintio go iawn, yn gyfle a werthfawrogir yn fawr gan y cyfranogwyr. Yn ogystal â sicrhau bod gwenynwyr yn mynd i ffwrdd â gwell dealltwriaeth o fioddiogelwch, hylendid, hwsmonaeth dda a phwysigrwydd archwilio gwenyn i weld a oes ganddynt unrhyw glefydau, rydym yn mwynhau gallu dangos y gwaith rydym yn ei wneud i gynulleidfa ehangach mewn ffordd addysgiadol sy'n hawdd ei deall.

*Gweithdy crwybr- Aberystwyth*

## Yn olaf

Hoffwn ddiolch i'r tîm o Arolygwyr Gwenyn Tymhorol am eu gwaith caled i gadw ein nythfeydd gwenyn mêl a reolir yn iach. Byddwch ar eich gwyliadwriaeth, archwiliwch gychod gwenyn i weld a ydynt wedi'u heintio â chlefyd y gwenyn a chadwch lygad am Gacwn Asia, os na fyddwch yn edrych, ni fyddwch yn dod o hyd iddynt. Llawer o ddiolch hefyd i ysgrifenyddion/swyddogion hyfforddi'r cymdeithasau lleol a'n helpodd i reoli'r rhaglen o ddiwrnodau iechyd gwenyn ledled Cymru, hoffem weld rhagor o bobl yn dod i'r diwrnodau hyn y flwyddyn nesaf, felly dewch i weld sut mae crwybrau wedi'u heintio yn edrych, sut i osgoi clefydau a Varroa ac adnabod y plâu egsotig hynny. Hoffwn ddymuno tymor llwyddiannus a didrafferth i bob un ohonoch y flwyddyn nesaf ond, os bydd y gwaethaf yn digwydd, cofiwch fod yr UWG yma i'ch helpu http://www.nationalbeeunit.com/

**Frank Gellatly**
Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol, Cymru

*Noder bod fy nghyfeiriad e-bost wedi newid i francis.gellatly@apha.gov.uk O fis Mawrth 2019 ni dderbynnir unrhyw negeseuon e-bost a anfonir i'r fersiwn 'gsi'.*

**National Bee Unit | Uned Wenyn Genedlaethol**
**Animal and Plant Health Agency (APHA) | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

Telephone/ Ffôn: 01267 202732 | Mobile/ Ffôn Symudol: 07775 119480 | Jabber 02082 257173 | Email/ E-bost: francis.gellatly@apha.gov.uk
Website/ Gwefan: www.gov.uk/apha | Twitter/ Trydar: @APHAgovuk | Facebook/ Gweplyfr: aphagov

National Bee Unit Website (BeeBase)/ Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Address/ Cyferiad: National Bee Unit, National Agri-Food Innovation Campus, Sand Hutton, York, YO41 1LZ